Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD GWENER, 29AIN EBRILL, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

annession@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 22/4/22)

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ian B. Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Dyfrig L. Siencyn	Cyngor Gwynedd
Charlie McCoubrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

Dafydd Evans	Grwp Llandrillo Menai
Maria Hinfelaar	Prifysgol Glyndwr
Yana Williams	Coleg Cambria
Askar Sheibani	Bwrdd Cyflenwi Busnes
Yr Athro Iwan Davies	Prifysgol Bangor

Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Dafydd Gibbard	Cyngor Gwynedd
Ian Bancroft	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych

Swyddogion yn bresennol

Dewi Morgan	Swyddog Adran 151
Iwan G. Evans	Swyddog Monitro
Alwen Williams	Cyfarwyddwr Portffolio
Hedd Vaughan Evans	Rheolwr Gweithrediadau
Sheryl Le Bon Jones	Uwch Swyddog Gweithredol Dros Dro

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

5. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF Y BWRDD UCHELGAIS AR GYFER 2021-22 12 - 21

Adroddiad gan Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol)

6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 22 - 51

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau)

7. DIWEDDARIAD PROSIECT DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH (HYDROGEN) 52 - 59

Adroddiad gan Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni)

8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu

gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

9. CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Adroddiad i'w gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig.

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 25 MAWRTH 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol – Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Sheryl Le Bon Jones (Uwch Swyddog Gweithredol), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Eirian Roberts a Sioned Mai Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Hefyd yn bresennol – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru)

Croesawyd Wendy Boddington o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod, a diolchwyd iddi am ei diddordeb yng ngwaith y Bwrdd.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) ac Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint); Yana Williams (Coleg Cambria), Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Neil Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2022 fel rhai cywir.

5. RHEOLI NEWID - STRWYTHUR Y RHAGLEN DDIGIDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol).

PENDERFYNWYD

(1) Cymeradwyo'r cais i newid i ailstrwythuro tri o brosiectau isadeiladedd digidol y Rhaglen Ddigidol i greu dau brosiect newydd.
(2) Nodi'r cynnig i gyfuno'r prosiectau Campysau Cysylltiedig a Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol yn un prosiect i ganolbwyntio ar gyflawni capasiti rhwydwaith ffibr-optig i fodloni amcanion gwario'r ddau brosiect. Yn ddarostyngedig i asesiad pellach o'r gofynion (lle mae gofyn am rwydweithiau ffibr-optig newydd wedi'i adnabod) gallai elfen o'r prosiect Campws Cysylltiedig gael ei chynnwys yn y prosiect hwn. Ni argymhellir newid i'r prosiect Ychydig % Olaf na'r prosiect Ymchwil a Datblygu DSP.
(3) Nodi strwythur cyflawni ac amserlen ddiwygiedig y rhaglen fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
(4) Nodi bod gofyn hysbysu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y newid sydd wedi'i gytuno.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Deilliant y gweithdai Achos Economaidd ar gyfer y prosiect Coridorau Cysylltiedig oedd adnabod opsiwn a ffefrir sy'n cynnwys buddsoddi mewn darpariaeth rhwydwaith ffibr-optig newydd yn y rhanbarth. Mae prosiect Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol y Rhaglen Ddigidol, sydd ar y cam SOC ar hyn o bryd, hefyd yn targedu darpariaeth rhwydwaith ffibr-optig, gyda'r 'safleoedd allweddol' cyfredol fel arfer yn agos i'r safleoedd 'coridorau' trafnidiaeth sydd o fewn sgôp y prosiect Coridorau Cysylltiedig. Mae'r ffaith fod y lleoliadau a bellach y ddarpariaeth gwasanaeth yn alinio yn rhoi cyfle i ddod â'r ddau brosiect ynghyd i gyflawni amcanion gwario dan un prosiect yn unig. Cefnogir yr egwyddor hon gan arferion gorau Trysorlys EM yn ei Ganllaw i Ddatblygu Achos Busnes y Rhaglen ('Better Business Cases for better outcomes').

Er mwyn lleihau'r effaith i'r amserlenni ar gyfer datblygu achosion busnes prosiectau a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais, bydd angen gweithredu newidiadau i strwythur y rhaglen cyn gynted â phosibl. Bydd angen gwneud newidiadau i gwmpas yr achosion amlinellol strategol nesaf cyn comisiynu cymorth ymgynghori pellach.

Bydd angen i'r broses o gaffael cymorth ymgynghori i gwblhau Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiectau Coridorau Cysylltiedig, Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Champws Cysylltiedig ddechrau'r chwarter nesaf ac ni ellir cadarnhau cwmpas y gwaith hwn hyd nes y gwneir penderfyniad ar strwythur y rhaglen. Mae Trysorlys EM yn argymell adolygiadau rheolaidd o Achos Busnes y Rhaglen i gyfrif am newidiadau yn yr achos strategol a chanlyniadau diweddar gweithdai prosiect, ac mae gweithgarwch y farchnad a'r Llywodraeth yn awgrymu bod digon o newidiadau wedi digwydd i fod angen eu hadolygu.

TRAFODAETH

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn ymddangos yn gam rhesymegol ymlaen, a phetai yna obaith o leihau'r strwythur llywodraethiant, bod hynny i'w groesawu'n fawr, a bod y buddion o gaffael hefyd yn glir yma.

Codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio, y Rheolwr Rhaglen Digidol a'r tîm am eu gwaith caled.
- Gofynnwyd i'r mater ddod yn ôl i'r Bwrdd petai'r amserlen yn llithro.

- Nodwyd bod y cais yn synhwyrol ac yn gymesur, a chroesawyd y parodrwydd i addasu, petai angen, wrth i bethau esblygu.
- Mynegwyd pryder bod y cynnydd sylweddol mewn prisiau yn golygu bod perygl y gallai cwmnïau fethu cadw at eu pris, neu dynnu allan o gontract yn llwyr. Nodwyd mai rhan o'r broblem oedd y symudiad yn y farchnad yn ystod y cyfnod rhwng diwedd y broses bwrcasu a chymeradwyo'r cynlluniau busnes. Pwysleisiwyd bod raid i lywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, edrych ar ffyrdd o gael pethau i symud yn fwy sydyn, ac roedd hynny'n fater i'w ystyried yn ystod cyfnod y Cynllun Twf, neu, fel arall, byddai'n rhaid ail-dendro am waith yn barhaus. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen Digidol fod yna gyfleoedd diddorol i symleiddio caffael, cyn belled â phosib', yn y maes digidol. Cyfeiriodd yn benodol at y defnydd o fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron, gan egluro, yn achos y rhaglen ddigidol, y gellid dibynnu ar waith a gyflawnwyd ers tro gan Adran Digidol Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU yn sefydlu system brisio ddynamig sy'n darparu dull hynod amlbwrpas ac ymatebol o gaffael, ac sydd bellach yn dechrau cael ei ddefnyddio gan yr awdurdodau cyntaf yn y DU. Ar fater mwy cyffredinol, nododd y Rheolwr Gweithrediadau y cytunwyd y byddai'r PMO yn cynnal gweithdy gyda thimau rhanbarthol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i drafod ein risgiau, er mwyn edrych sut y gallai'r llywodraethau ein cefnogi, gan gynnwys edrych ar sut i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau.

6. CYNNIG I GYFLAWNI CYNLLUNIAU YNNI ARDALOEDD LLEOL YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni).

PENDERFYNIAD

(1) Cytuno i fabwysiadu dull cydgysylltiedig, rhanbarthol o ddarparu'r Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol ar draws awdurdodau lleol y Gogledd dan arweiniad y Swyddfa Rheoli Portffolio (drwy Gyngor Gwynedd fel y Corff Atebol).
(2) Cytuno i recriwtio rheolwr prosiect a dau swyddog prosiect i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog a151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ar y cytundebau ariannu grant a gweithredu'r cynnig.
(3) Nodi, yn amodol ar gytundeb ariannu grant, y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i dalu costau cyflawni'r cynlluniau ac ar gyfer adnoddau rheoli'r prosiect.
(4) Nodi y caiff trefniadau llywodraethu prosiect priodol eu rhoi ar waith ym mhob awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo'r cynlluniau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cytundeb i Uchelgais Gogledd Cymru gyflawni Cynlluniau Ardaloedd Lleol (LAEPs) yng Ngogledd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Cynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP) ledled Cymru ac wedi cynnig dull rhanbarthol cydgysylltiedig o gyflawni. Mae Prif Weithredwyr awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi cadarnhau eu cefnogaeth i'r dull hwn ac i'r gwaith cyflawni gael ei gydlynu gan Swyddfa Rheoli Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru.

TRAFODAETH

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Gan gyfeirio at y penderfyniadau a geisid, gofynnodd y Rheolwr Rhaglen Ynni i'r Bwrdd ystyried gwneud y penderfyniad ychwanegol a ganlyn, yn dilyn ymgysylltu gyda'r prif weithredwyr:-

"*Nodi y caiff trefniadau llywodraethu prosiect priodol eu rhoi ar waith ym mhob awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo'r cynlluniau."*

Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Bwrdd ystyried addasu penderfyniad 2 fel a ganlyn, er mwyn caniatáu sefydlu trefniadau grant rhwng Gwynedd a'r cynghorau unigol hefyd, petai eu hangen.

"Cytuno i recriwtio rheolwr prosiect a dau swyddog prosiect i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog a151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ar y cytundebau ariannu grant a gweithredu'r cynnig.

Codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod Cyngor Conwy wedi mynd drwy'r broses, a bod yr adborth yn dangos bod yr ymarferiad wedi bod yn un buddiol, oedd yn feincnod o lle rydym wedi cyrraedd, ac yn gosod llwybr ar gyfer lle'r ydym angen bod. Credid ei bod yn synhwyrol gweithredu'n rhanbarthol, oherwydd er bod rhai pethau'n berthnasol i siroedd penodol, byddai'n rhaid i'r prif gynlluniau, megis hydrogen, morlynnoedd llanw a thrafnidiaeth, gael eu gwneud yn rhanbarthol.
- Mewn ymateb i gais am fwy o eglurder ynglŷn â'r diwygiad i benderfyniad 2, eglurodd y Swyddog Monitro, er bod y grantiau yn cael eu derbyn gan y Bwrdd, bod elfen o'u gweithredu yn nwylo'r awdurdodau unigol, ac felly bod angen sicrhau'r mecanwaith ar gyfer sefydlu'r llinell atebolrwydd rhwng gweithredu ac arwyddo'r grant, petai angen hynny.

7. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau).

PENDERFYNWYD

1. **Cymeradwyo Cyllideb Refeniw 2022/23 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau unwaith ac am byth o £85,000 yn y gyllideb refeniw i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir.**
2. **Cymeradwyo cyfraniadau ariannu yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, a chyfraniadau llog partneriaid.**
3. **Cymeradwyo cais y Bwrdd Cyflawni Busnes bod y tanwariant o £20,000 yn erbyn eu cyllideb 2021/22 yn cael ei gario ymlaen i 2022/23 i roi cyfanswm cyllideb o £40,000 iddynt.**
4. **Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

TRAFODAETH

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r Swyddog Cyllid Statudol a'r Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau am y gwaith a'r cyflwyniad clir.
- Eglurwyd fod y gyllideb gwariant Hyfforddiant yn cyfeirio at hyfforddiant penodol y bydd staff y Bwrdd Uchelgais ei angen yn ystod y flwyddyn.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y gwariant yswiriant o £2,980, eglurwyd ei fod yn cyfeirio at gostau yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus sy'n cael ei drefnu fel rhan o waith yr awdurdod lletya ac fel rhan o bolisi yswiriant Cyngor Gwynedd.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â pham na chafodd cyllid y Bwrdd Cyflawni Busnes ei wario yn y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd nad oedd y Bwrdd hwn yn siŵr ble i wario'r arian yn flaenorol. Hyderwyd y bydd yr arian sy'n cael ei gario drosodd pe caniateir y penderfyniad yn cael ei wario'n ddoeth a'n gynhyrchiol yn y flwyddyn i ddod ynghyd a'r arian o'r gyllideb 2022/23. Ychwanegwyd fod amseru wedi bod yn broblem; dylid defnyddio'r gyllideb hon tuag at dargedu a denu buddsoddiadau i'r rhanbarth; adroddwyd ei bod yn anodd cyflawni hyn nes oedd y brand newydd yn ei le. Bellach mae gan y Bwrdd Uchelgais lawer mwy o eglurder a nod cadarn ynglŷn â ble i fynd a beth i'w gyflawni o ran denu buddsoddiadau. Diolchwyd i'r Bwrdd Cefnogi Busnes am eu cefnogaeth.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfraddau llog o 2.2% yn parhau heb eu newid ers Hydref 2020, cytunwyd ar hyn yn dilyn derbyn barn cwmni ymgynghorol trysorlys annibynnol. Bydd cronfa ar wahân yn cael ei greu ar gyfer y llog sy'n cael ei glustnodi fel ei fod yn cael ei ddangos ar wahân.
- Mewn ymateb i sylw y bydd pwysau chwyddiant cynyddol ar yr holl brosiectau, eglurwyd y bydd pob prosiect wrth fynd drwy'r broses ddatblygu yn cael gwiriad trylwyr ynghylch fforddiadwyedd; bydd mwy o ffocws yn cael ei roi ar yr elfen hon ynghyd ag adolygu rheolaidd. Ychwanegwyd fod materion chwyddiant a chyfraddau llog wedi derbyn ystyriaeth lawn a bod trafodaethau rheoli risg parhaus yn cael eu cynnal efo'r timau rhanbarthol yn y DU ac efo Llywodraeth Cymru ynghylch hyn.
- Holwyd ynghylch y cyfarfodydd risg ac os oedd modd gwahodd Awdurdodau Lleol i'r cyfarfodydd hyn gan fod materion tebyg yn berthnasol i Awdurdodau. Adroddwyd mai'r bwriad gwreiddiol oedd i'r cyfarfodydd drafod eitemau Cynlluniau Twf penodol gyda'r ddau dîm rhanbarthol, bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn holi i weld os oes lle i ehangu'r drafodaeth.

8. SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO - STRWYTHUR A CHONTRACTAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

PENDERFYNIAD

1. **Cymeradwyo'r egwyddor o ymestyn contractau tymor penodol o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio hyd at 31 Mawrth 2024 a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio weithredu hyn ar unwaith.**
2. **Nodi y telir costau'r ymestyniad hwn o ffynonellau ariannu presennol (yn cynnwys cronfeydd wrth gefn) ac ni fydd yn arwain at unrhyw ofynion ariannol ychwanegol gan bartneriaid.**
3. **Nodi bod awdurdod dirprwyedig wedi'i roi yn flaenorol [Ionawr 2020] i'r Cyfarwyddwr Portffolio i wneud newidiadau i strwythur y Swyddfa Rheoli Portffolio mewn ymgynghoriad â Phrif Weithredwr yr Awdurdod Lletya a'r**

Swyddog Cyllid Statudol i ddiwygio'r strwythur fel sydd angen o fewn yr amlen ariannu.

4. **Nodi y bydd gofynion adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf wedi Mawrth 2024 yn rhan o adolygiad o adnoddau rhanbarthol i'w wneud gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol a fydd hefyd yn ystyried goblygiadau ehangach y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, y Gronfa Ffyniant Cyffredin a ffynonellau ariannu eraill a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r adnoddau sydd eu hangen ar lefel awdurdodau lleol i ddatblygu a chyflawni prosiectau a rhaglenni datblygu economaidd ac adfywio lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyflwyno cynnig a sail resymegol i'r Bwrdd ar gyfer ymestyn contractau tymor penodol o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod adnoddau digonol yn eu lle i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020 gyda thîm bychan o staff. Yn sgil cais llwyddiannus am grant Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF), ehangwyd y tîm a recriwtiwyd i'r strwythur cyfredol dros y 18 mis diwethaf.

Mae'r grant ESF sydd wedi'i sicrhau tan ddiwedd mis Mehefin 2023 ac mae rhan fwyaf y staff o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gontractau tymor penodol hyd at 30 Mehefin 2023.

Mae hyn risg sylweddol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gan fod staff sy'n allweddol i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn tynnu am flwyddyn olaf eu contractau a gallent geisio am gyfleoedd eraill sydd â mwy o sicrwydd cytundebol.

O ganlyniad i nifer o ffactorau yn cynnwys y pandemig, oedi wrth ddatblygu prosiectau a heriau recriwtio, mae'r Cynllun Twf tua blwyddyn ar ei hôl hi o gymharu â'r amserlen gyflawni wreiddiol. Gydag un prosiect eisoes yn cael ei gyflawni, mae'r 24 mis nesaf yn hanfodol yn nhermau symud gweddill y prosiectau ymlaen i'r wedd cyflawni pan fyddwn yn dechrau gwireddu'r buddion i'r Gogledd.

TRAFODAETH

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Gan gyfeirio at y penderfyniadau a geisid, gofynnodd y Rheolwr Gweithrediadau i'r Bwrdd ystyried gwneud yr ychwanegiad a ganlyn i ddiwedd pwynt 2.4:-

".. a'r adnoddau sydd eu hangen ar lefel awdurdodau lleol i ddatblygu a chyflawni prosiectau a rhaglenni datblygu economaidd ac adfywio lleol."

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd am y cyflwyniad a chredwyd fod y cais yn un rhesymol a rhesymegol.
- Cydnabyddwyd bod risg sylweddol i golli aelodau o'r tîm ynghyd a'u gwybodaeth a'u profiadau. Mynegwyd fod y cais hwn yn un synhwyrol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 2.45 y.h.

CADEIRYDD

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

29/04/2022

Teitl: Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22.

Awdur: Dewi A. Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

---

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2021/22 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Bwrdd:-

2.1 Nodi a derbyn adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) a'r Adolygiad Diwedd Blwyddyn Cyfalaf fel yn Mawrth 2022 (Atodiad 3).

2.1 Cymeradwyo agor dwy gronfa wrth gefn newydd ynghyd â'r trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn fel y manylir yn Atodiad 2.

2.3 Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cyllid Statudol, i gymeradwyo gwariant o'r gronfa Prosiectau wrth gefn yn 2022/23.

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2021/22.

---

4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Yn 2021/22 am y tro cyntaf, caiff y Bwrdd Uchelgais ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Golyga hyn y bydd angen i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol, yn hytrach na'r dychweliad blynyddol a baratowyd ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Caiff y Datganiad Cyfrifon drafft ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022.

Refeniw

5. Gwariant ac incwm yn 2021/22

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb 2021/22.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net terfynol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 yn danwariant o £318,328.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.3 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £219,142. Mae'r tanwariant hwn wedi cynyddu £21,755 ers yr adolygiad trydydd chwarter, yn bennaf yn sgil tanwariant pellach ar amrywiol benawdau cyllideb.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.4 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £44,254 o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant ar bennawd gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya).

Cyd-bwyllgor

5.5 Y tanwariant terfynol dan y pennawd hwn yw £45,743 yn sgil tanwariant ar y penawdau Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol, y Ffioedd Cyllidol Allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Ar 25 Mawrth 2022, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo cario'r tanwariant o £20,000 ar bennawd y Bwrdd Cyflawni Busnes ymlaen i 2022/23, i roi cyfanswm cyllideb o £40,000.

Prosiectau a Chynlluniau Grant

5.6 Mae'r pennawd Prosiectau bellach wedi'i rannu i "Prosiectau" a "Cynlluniau Grant". Mae'r pennawd "Prosiectau" yn cynnwys gwariant ar achosion busnes y prosiectau ac mae'r pennawd "Cynlluniau Grant" yn cynnwys eitemau a ariannwyd gan grantiau penodol gyda'r incwm grant cyfatebol wedi'i ddangos dan y pennawd Incwm. £224,348 yw'r tanwariant terfynol ar y pennawd Prosiectau, ac mae'r tanwariant wedi cynyddu £121,981 ers yr adolygiad trydydd chwarter yn sgil oedi wrth ddatblygu prosiectau, a bellach disgwylir i'r gwariant ddigwydd yn ystod 2022/23.

Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn

5.7 Caiff cyfraniadau llog y partneriaid yn 2021/22 (£678,020) ynghyd â'r llog ar y rhain ac ar y grant cyfalaf (£16,272) eu trosglwyddo i gronfa Llog wrth gefn benodol i'w diogelu i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

5.8 Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi bod yn llwyddiannus yn denu grant o £195,000 gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwariant penodol a oedd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a chyflymu adfer yr economi wedi Covid yn 2021/22. Caiff cyfraniadau'r partneriaid (£100,000) a'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd (£95,000), a oedd wedi'u cyllidebu'n wreiddiol i ariannu'r gweithgareddau hyn yn 2021/22, eu trosglwyddo i gronfa Prosiectau wrth gefn benodol i ariannu gwariant pellach yn y maes hwn yn ystod 2022/23.

Cyfraniadau Ariannu

5.9 Mae'r prif ffrydiau Incwm ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, clustnodiad refeniw Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a grantiau penodol eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

5.10 Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai angen £384,430 o glustnodiad refeniw y grant Cynllun Twf yn ystod 2021/22, ond yn sgil gwariant is na ragwelwyd yn wreiddiol, dim ond £218,773 oedd ei angen i ariannu'r gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn. Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 1.5% o grant Cynllun Twf

Gogledd Cymru (sydd gyfwerth â £3.6m) wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag amodau'r grant. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli'r cyllid ar gyfer eu rhaglenni cyfalaf eu hunain. Yn 2021/22, mae hyn wedi golygu bod Cyngor Gwynedd wedi clustnodi £218,773 o'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer y Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf ac yna trosglwyddo'r gwerth cyfartal o gyllid refeniw i'r Bwrdd Uchelgais i ariannu ei wariant refeniw.

5.11 Caiff y Cyllid Adfywio Cymunedol ei dderbyn gan bedwar awdurdod lleol (Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) tra bod y Grant Datgarboneiddio, Grant Arolwg cwmpas ffonau symudol a'r Grant Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'u derbyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

<u>Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais</u>

5.12 Mae Atodiad 2 yn dangos y symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, a'r balansau ar 31 Mawrth 2022.

5.13 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a glustnodwyd, ar 31 Mawrth 2022, oedd £637,027. Amcangyfrifwyd y byddai hwn yn £620,692 yn yr adolygiad trydydd chwarter. Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd y defnydd o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd hon fel rhan o gyllideb 2022/23 ynghyd ag i ariannu'r strwythur staffio yn ystod 2023/24.

5.14 Balans y gronfa prosiectau wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 oedd £195,000, a chaiff hwn ei neilltuo i gefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn ystod 2022/23.

5.15 Balans y gronfa llog wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 oedd £699,145 a chaiff hwn ei neilltuo i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

Cyfalaf

5.16 Mae Atodiad 2 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen Gyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22. Mae'r gwariant ar y prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) wedi dechrau yn ystod 2021/22, gyda gwerth £0.12m o offer wedi'i dderbyn cyn diwedd Mawrth 2022, ac er bod archebion wedi'u gosod, disgwylir i'r offer sy'n weddill gael eu derbyn yn ystod 2022/23. Mae hyn felly yn rhoi ffigyrau llithriad diwygiedig yn erbyn y gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd yn mis Mawrth 2021 o £18.51m yn 2021/22, £39.69m yn 2022/23 a £18.93m yn 2023/24. Caiff grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, gwerth £16m a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2021 ei ddefnyddio i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2021/22. Mae £20.4m pellach wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2022/23, ac fe'i derbyniwyd ar 8 Ebrill 2022.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

6.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, Atodiad 2 ac Atodiad 3, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Bwrdd Portffolio ar 8 Ebrill 2022.

8. Atodiadau

Atodiad 1 - Sefyllfa alldro Refeniw y BUEGC 2021/22.

Atodiad 2 - Balans Cronfeydd y BUEGC

Atodiad 3 - Rhaglen Gyfalaf BUEGC 2021/22 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2022)

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.

Gwariant	Cyllideb Sylfaenol (£)	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)	Sefyllfa terfynol 2021/22 (£)	Gor / (Tan)wariant (£)
Swyddfa Rheoli Portffolio					
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	1,230,550		1,230,550	1,130,204	(100,346)
Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr		5,000	5,000	3,315	(1,685)
Teithio a Chynhaliaeth	7,500		7,500	864	(6,636)
Hyfforddiant	7,500	10,000	17,500	14,870	(2,630)
Ymgysylltu a Chyfarfodydd	7,500		7,500	1,130	(6,370)
Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus	30,000	50,000	80,000	76,147	(3,853)
Cyflenwadau a Gwasanaethau	10,000	10,000	20,000	21,258	1,258
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol	42,290		42,290	13,294	(28,996)
Eiddo	17,500		17,500	18,188	688
Datblygu Portffolio a Rhaglenni		95,000	95,000	81,608	(13,392)
Cefnogaeth Allanol Caffael a Thrafnidiaeth		80,000	80,000	22,820	(57,180)
Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen	**1,352,840**	**250,000**	**1,602,840**	**1,383,698**	**(219,142)**
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol					
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid	98,110		98,110	60,173	(37,937)
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	25,490		25,490	26,840	1,350
Cefnogaeth Gorfforaethol	37,110		37,110	35,979	(1,131)
Technoleg Gwybodaeth	15,000		15,000	15,715	715
Yswiriant	10,000		10,000	2,749	(7,251)
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	**185,710**	**0**	**185,710**	**141,456**	**(44,254)**
Cyd-bwyllgor					
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	18,000		18,000	0	(18,000)
Ffioedd Cyllidol Allanol	10,000		10,000	2,257	(7,743)
Ffi Archwilio Allanol	11,000		11,000	11,000	0
Bwrdd Cyflawni Busnes	20,000		20,000	0	(20,000)
Cyfanswm Cyd-bwyllgor	**59,000**	**0**	**59,000**	**13,257**	**(45,743)**
Prosiectau					
Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau	145,000	105,000	250,000	145,584	(104,416)
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	100,000		100,000	38,488	(61,512)
Sicrwydd	40,000	60,000	100,000	41,580	(58,420)
Cyfanswm Prosiectau	**285,000**	**165,000**	**450,000**	**225,652**	**(224,348)**
Cynlluniau grantiau					
Dosbarthu Grant Datcarboneiddio			0	500,290	500,290
Cronfa Adfywio Cymunedol			0	135,895	135,895
Arolwg cwmpas ffonau symudol			0	14,694	14,694
Cyfanswm Cynlluniau grantiau	**0**	**0**	**0**	**650,879**	**650,879**
Trosglwyddiadau i gronfeydd					
Cyfraniadau llog y Partneriaid	678,020		678,020	678,020	0
Llog ar falansau 2021/22			0	16,272	16,272
Fframwaith Economaidd Rhanbarthol			0	195,000	195,000
Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd	**678,020**	**0**	**678,020**	**889,292**	**211,272**
Cyfanswm Gwariant	**2,560,570**	**415,000**	**2,975,570**	**3,304,234**	**328,664**

Incwm	Cyllideb Sylfaenol (£)	Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)	Sefyllfa terfynol 2021/22 (£)	Gor / (Tan)wariant (£)
Cyfraniadau Ariannu					
Cyfraniadau Partneriaid					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Gwynedd	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Prifysgol Bangor	(25,000)		(25,000)	(25,000)	0
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	(25,000)		(25,000)	(25,000)	0
Coleg Cambria	(25,000)		(25,000)	(25,000)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(25,000)		(25,000)	(25,000)	0
Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Gwynedd	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(40,000)		(40,000)	(40,000)	0
Cyfraniadau llog y Partneriaid					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(78,010)		(78,010)	(78,010)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(64,000)		(64,000)	(64,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(104,000)		(104,000)	(104,000)	0
Cyngor Gwynedd	(82,670)		(82,670)	(82,670)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(46,670)		(46,670)	(46,670)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(90,670)		(90,670)	(90,670)	0
Prifysgol Bangor	(93,330)		(93,330)	(93,330)	0
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	(34,000)		(34,000)	(34,000)	0
Coleg Cambria	(34,670)		(34,670)	(34,670)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(50,000)		(50,000)	(50,000)	0
Eraill					
Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd	(858,120)		(858,120)	(808,304)	49,816
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Gwynedd)	(384,430)		(384,430)	(218,773)	165,657
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi		(415,000)	(415,000)	(415,000)	0
Llog			0	(16,586)	(16,586)
Grant Datcarboneiddio			0	(500,290)	(500,290)
Cronfa Adfywio Cymunedol			0	(135,895)	(135,895)
Grant Arolwg cwmpas ffonau symudol			0	(14,694)	(14,694)
Grant Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru			0	(195,000)	(195,000)
Cyfanswm Incwm	**(2,560,570)**	**(415,000)**	**(2,975,570)**	**(3,622,562)**	**(646,992)**
Gor / (Tan) wariant Net	**0**	**0**	**0**	**(318,328)**	**(318,328)**

Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2021	**(738,552)**
Trosglwyddiad llog 2020/21	4,853
Dyraniad Cyllideb 2021/22	415,000
Tanwariant 2021/22	(318,328)
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2022	**(637,027)**

Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2021	**0**
Tanwariant 2021/22	(195,000)
Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2022	**(195,000)**

Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2021	**0**
Trosglwyddiad llog 2020/21	(4,853)
Cyfraniadau llog y partneriaid 2021/22	(678,020)
Llog ar falansau 2021/22	(16,272)
Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2022	**(699,145)**

Rhaglen Gyfalaf BUEGC 2021/22 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2022) **Atodiad 3**

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	2021/22 (£m)	2022/23 (£m)	2023/24 (£m)	2024/25 (£m)	2025/26 (£m)	2026/27 (£m)	2027/28 (£m)	2028/29 (£m)	Cyfanswm (£m)
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	0.12	2.40	0.44	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
Digidol	Cysylltedd Cystadleuol - ffibr llawn mewn safleoedd allweddol	BUEGC	0.00	0.49	3.05	3.16	0.00	0.00	0.00	0.00	6.70
Digidol	Coridor Cysylltiedig	BUEGC	0.00	0.49	1.18	0.50	0.00	0.00	0.00	0.00	2.17
Digidol	Campws Cysylltiedig	BUEGC	0.00	0.00	0.30	3.84	5.81	5.81	4.92	0.00	20.68
Digidol	Cysylltu ychydig ganrannau olaf	BUEGC	0.00	0.69	1.97	1.28	0.00	0.00	0.00	0.00	3.94
Ynni carbon isel	Morlais	Menter Môn	0.00	4.93	3.94	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87
Ynni carbon isel	Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	1.18	8.47	9.36	1.67	0.00	0.00	0.00	20.68
Ynni carbon isel	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Egino	0.00	0.00	4.93	9.85	4.92	0.00	0.00	0.00	19.70
Ynni carbon isel	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	BUEGC	0.00	0.00	3.94	3.94	3.35	0.00	0.00	0.00	11.23
Ynni carbon isel	Ynni Lleol Blaengar	BUEGC	0.00	0.00	1.23	1.97	6.16	6.16	6.16	2.95	24.63
Tir ac eiddo	Porth Caergybi	Stena Line	0.00	0.00	11.33	13.79	9.35	0.00	0.00	0.00	34.47
Tir ac eiddo	Safle Strategol Warren Hall	BUEGC	0.00	0.30	1.18	5.91	7.38	0.00	0.00	0.00	14.77
Tir ac eiddo	Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	BUEGC	0.00	0.99	0.99	0.98	0.98	0.00	0.00	0.00	3.94
Tir ac eiddo	Safle Strategol Bodelwyddan	BUEGC	0.00	0.00	0.00	0.49	0.99	5.42	2.95	0.00	9.85
Tir ac eiddo	Safle Strategol Parc Bryn Cegin	BUEGC	0.00	0.25	2.71	2.95	0.00	0.00	0.00	0.00	5.91
Tir ac eiddo	Porth Wrecsam	BUEGC	0.00	0.00	4.04	4.92	0.00	0.00	0.00	0.00	8.96
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	1.23	1.73	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	0.00	6.40	3.15	0.30	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	6.90	2.95	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambira	0.00	4.93	4.92	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
Bwyd-amaeth a thwristiaeth	Academi Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	1.48	1.48	1.47	0.00	0.00	4.43
Cyfanswm gwariant			**0.12**	**29.95**	**61.95**	**66.45**	**42.09**	**18.86**	**14.03**	**2.95**	**236.40**
Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Mawrth 2021)			**18.63**	**69.64**	**80.88**	**46.01**	**21.24**	**0.00**	**0.00**	**0.00**	**236.40**
Gwahaniaeth			**(18.51)**	**(39.69)**	**(18.93)**	**20.44**	**20.85**	**18.86**	**14.03**	**2.95**	**0.00**

Bydd y £3.6m sy'n weddill o'r grant Bargen Twf yn cael ei ddefnyddio i ariannu cyllideb refeniw y cyd-bwyllgor.

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
29 Ebrill 2022

TEITL: Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau

DRAFT

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr - Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
- Cofrestr Risg y Portffolio - Mawrth 2022

4.4. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.5. Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi symud ymlaen yn swyddogol i'r wedd cyflawni. Mae'r prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) bellach wedi gosod archebion ar gyfer gwedd un y prosiect ac mae'r eitemau cyntaf o offer wedi'u derbyn.

4.6. Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd porth yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror 2022 gyda'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi cwblhau ei adolygiad Porth 1 ym mis Ionawr 2022. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylwi i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

4.7. Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom dderbyn a llofnodi'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer 2021-22 gan gadarnhau rhandaliad nesaf cyllid y Cynllun Twf o £20.45m.

4.8 Fe wnaethom lansio ein brand newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae hyn rhoi llwyfan i ni i farchnata ac ymgysylltu ac mae'n declyn allweddol i'r Gogledd gynrychioli'r weledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd yn y dyfodol ac yn sianel i rannu gwybodaeth a symud ymlaen tuag at gyflawni'r Cynllun Twf.

4.9 Mae diweddariad Chwarter 4 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni Achos Busnes diwygiedig y Portffolio ar gyfer 2021 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2021. Mae pum prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw.
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro a bydd angen adolygu'r prosiect pan fydd y polisi cynllunio newydd ar gyfer y safle wedi'i sefydlu.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.
- Fferm Sero Net Llysfasi (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2.
- Rhwydwaith Talent Twristiaeth (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - strwythur cyfreithiol y model prif ganolfan a lloerennau i'w gytuno ac mae'r gwaith ar ddatblygu'r achos busnes ar ei hôl hi.

4.10 Yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn cyntaf ym mis Rhagfyr 2021, roedd y gwariant mewn perthynas â phrosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol yn £123k yn Chwarter 4. Mae'r prosiect DSP wedi gosod yr archebion ar gyfer gwedd gyntaf y prosiect; fodd bynnag, ni fyddwn yn derbyn rhan fwya'r offer tan ar ôl mis Ebrill 2022.

4.11 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.12 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.13 Mae'r proffil risg wedi cynyddu dros y chwarter diwethaf. Bellach, fforddiadwyedd yw'r risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae gan y risg gynyddol ynghylch fforddiadwyedd effaith uniongyrchol ar draws y portffolio gan gynyddu'r risgiau o amgylch oedi o fewn prosiectau, bodloni targedau amcanion gwario a chyflawni ar ddyheadau newid hinsawdd.

4.14 Mae pum gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn - fforddiadwyedd, oedi, newid hinsawdd a bioamrywiaeth, amcanion gwario a newid gwleidyddol. Mae'r risg adfer yr economi wedi gostwng yn sgil cyhoeddi'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a'r symud o bandemig i endemig.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf ac mae'n cynnwys y gwariant ariannol gwirioneddol yn dilyn cymeradwyo achosion busnes y prosiectau.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
Atodiad 2	Cofrestr Risg y Portffolio - Mawrth 2022

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

Mae'r adroddiad hwn yn ofyniad er mwyn gallu parhau i hawlio rhandaliadau grant y Llywodraeth, ac rwyf yn fodlon fod y cynnwys yn adlewyrchiad teg o berfformiad y Bwrdd Uchelgais dros y chwater diwethaf. Byddaf yn parhau i gynorthwyo'r Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Adroddiad Perfformiad
Chwarter 4 2021-22
(Ionawr i Mawrth 2021)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel 7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo 10

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel 15

8. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni 18

10. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 19

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf 22

Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi symud ymlaen yn swyddogol i'r wedd cyflawni. Mae'r Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) bellach wedi gosod archebion ar gyfer gwedd un y prosiect ac mae'r eitemau cyntaf o offer wedi'u derbyn.

Edrychwn ymlaen yn awr i weld y Ganolfan DSP yn rhoi Gogledd Cymru ar y map yn nhermau ei waith arloesol yn y sector . Mae'n bwysig hefyd y gall ein partneriaid, ein busnesau a'r cyhoedd ledled y rhanbarth ddechrau gweld y cyfleoedd gwirioneddol a'r buddion pendant a ddaw o gyllid y Cynllun Twf.

Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd porth yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror 2022 gyda'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi cwblhau ei adolygiad Porth 1 ym mis Ionawr 2022. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylwi i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom **dderbyn a llofnodi'r llythyr dyfarnu cyllid** ar gyfer 2021-22 gan **gadarnhau rhandaliad nesaf cyllid y Cynllun Twf o £20.45m**.

Fe wnaethom lansio ein brand newydd **'Uchelgais Gogledd Cymru'** a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae hyn rhoi llwyfan i ni i farchnata ac ymgysylltu ac mae'n declyn allweddol i'r Gogledd gynrychioli'r weledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd yn y dyfodol ac yn sianel i rannu gwybodaeth a symud ymlaen tuag at gyflawni'r Cynllun Twf.

Un o'n blaenoriaethau allweddol nawr yw **datblygu ein strategaeth ar gyfer denu buddsoddiad sector preifat**. Mae gennym strategaeth ddrafft yn ei lle sy'n cydnabod y gofyn i ddenu buddsoddiad sector preifat yn uniongyrchol i brosiectau'r Cynllun Twf, ond mae hefyd yn cydnabod y bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn gwella isadeiledd y rhanbarth, gan felly greu cyfleoedd buddsoddi mwy apelgar ar gyfer y sector busnes ac amlygu ein cryfderau a'n natur gystadleuol fel rhanbarth.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn eithriadol o ran y ffordd rydym yn gweithio a bellach, mae gennym gyfle i estyn allan i'r farchnad buddsoddwyd, gyda dull gweithredu a fydd yn denu ac yn magu diddordeb ac **yn dangos y potensial y gall y Gogledd ei ddarparu i fuddsoddwyr**.

Mae gyrru tuag at **ddyfodol sero-net** yn egwyddor sylfaenol ar gyfer y Cynllun Twf. Buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo dyfodol gwyrddach a glanach drwy ein buddsoddiadau. Rydym wedi gweithio gydag Arup ar ddull sy'n arwain y ffordd ar gyfer buddsoddi cyfalaf i ystyried datblygu cynaliadwy a chyflawni'n wirioneddol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni symud ymlaen. Disgrifiwyd hyn fel dull arloesol gan ein partneriaid, Arup, ac rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd yn y Gogledd.

Alwen Williams

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Themâu	Statws RAG	Sylwadau
Achos Busnes y Portffolio		Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu "y Bwrdd") ddiweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Mae'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer 2021-22 wedi'i dderbyn gan gadarnhau dyfarnu £20,445,000 fel ail randaliad cyllid y Cynllun Twf.
Piblinell Cyflawni		Mae nifer o brosiectau'n rhagweld mân oedi yn erbyn yr amserlen gyflawni gymeradwy. Bydd penderfyniad y Bwrdd i uno prosiectau o fewn y Rhaglen Ddigidol yn effeithio ar yr amserlen gyflawni ond yn cynnig manteision sylweddol o ran telerau a chyfle i sicrhau gwerth ychwanegol am arian i'r rhanbarth. Mae gan y risg fforddiadwyedd gynyddol y potensial i achosi oedi i'r biblinell gyflenwi.
Llywodraethu		Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno.
Sicrwydd		Cynhaliwyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020. Mae trafodaethau bellach ar y gweill ynghylch adolygiad 2022.
Adnoddau a Gallu		Mae un swydd wag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio oherwydd bod y Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo yn gadael i ymgymryd â rôl arall. Mae recriwtio ar y gweill i gael rhywun i gymryd ei le.
Cyllid		Mae'r prosiect DSP, a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr, wedi gosod yr archebion ar gyfer gwedd gyntaf y prosiect; fodd bynnag, ni fyddwn yn derbyn rhan fwya'r offer tan ar ôl mis Ebrill 2022 gyda dim ond £123k o wariant wedi'i gronni yn ystod 2021-22. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon yn ymwneud â tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi.
Risg		Mae'r proffil risg wedi cynyddu dros y chwarter diwethaf. Bellach, fforddiadwyedd yw'r risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae gan y risg gynyddol ynghylch fforddiadwyedd effaith uniongyrchol ar draws y portffolio gan gynyddu'r risgiau o amgylch oedi o fewn prosiectau, bodloni targedau amcanion gwario a chyflawni ar ddyheadau newid hinsawdd.
Monitro a Gwerthuso		Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol Achos Busnes Portffolio 2021.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Gwelodd y chwarter hwn ddechrau ein cyfres Trafodaeth Ddigidol newydd. Roedd y drafodaeth gyntaf yn ymwneud â phwysigrwydd cadw pobl ifanc yn y Gogledd, a oedd yn rhan o'n hymgyrch drwy gydol y chwarter gyda M-sparc, o'r enw 'Dewch yn ôl'. Ffocws yr ymgyrch oedd denu pobl ifanc yn ôl i'r rhanbarth, roedd hefyd yn cynnwys gweithgareddau fel darnau barn a fideo i hyrwyddo cyfleoedd yn y rhanbarth.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.	380	£158m	£41.7m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 30	• Mae'r prosiect DSP bellach yn cael ei gyflawni gydag eitemau cyntaf o offer a ariennir gan y Cynllun Twf yn cyrraedd Ch4 21/22. • Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 gyda'r argymhellion yn cael sylw yn Ch4 ac i mewn i Ch1 22/23 gydag adolygiad Sicrwydd Gweithredu i'w gynnal cyn cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'r Bwrdd Uchelgais. • Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais newid i'r Rhaglen ym mis Mawrth, yn cynnwys y prosiectau Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig sy'n uno i ffurfio un prosiect. Ni chynigir unrhyw newidiadau i gyllideb gyffredinol y prosiect na'r amcanion gwariant a bydd y newid yn gwella'r modd y caiff achosion busnes eu cyflawni, y gallu i lywodraethu a'r canlyniadau caffael. • Bydd datblygiad achos busnes Campws Cysylltiedig yn mynd rhagddo'n awr ochr yn ochr â'r prosiect 'Safleoedd a choridorau allweddol cysylltiedig' newydd i sicrhau bod unrhyw synergeddau pellach yn cael eu nodi ar adegau allweddol wrth i'r prosiectau fynd drwy'r broses SOC-OBC-FBC.

Mark Pritchard
Aelod Arweiniol

Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol

Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo	• Caffael wedi'i gwblhau gyda'r holl eitemau yng ngwedd 1 o fewn y gyllideb • Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a sicrwydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU	• Cyflawni gwedd gyntaf yr offer • Adolygiad Porth 4 ('Parodrwydd am y Gwasanaeth') • Dechrau gweithgareddau Ymchwil a Datblygu sy'n gysylltiedig â buddsoddiad y Cynllun Twf.		• Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod
Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	• Adolygiad Porth 2 ('Strategaeth Cyflawni') • adolygiad wedi'i gwblhau • 'Ymatebion cyflenwyr' wedi'u derbyn drwy Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru	• 'Adolygiad Sicrwydd Gweithredu' yn dilyn argymhelliad Porth 2 • Cwblhau achosion Masnacho, Ariannol ac Economaidd		• Mae angen gweithredu ar argymhellion Porth 2 cyn cyflwyno'r OBC i'r Bwrdd Uchelgais
Coridorau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	• Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r newid i uno'r prosiect Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol • Arolwg darpariaeth signal symudol i'w gwblhau diwedd Mawrth	• Gweithgareddau prosiect yn parhau yn y prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol • SOC i'w ddatblygu • Llywodraethiant y prosiect i gael ei gytuno		• Datblygiad achos busnes y prosiect i gael ei ail-broffilio i gyd-fynd â'r prosiect newydd sydd wedi'i gyfuno
Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r newid i uno'r prosiect Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol	• Gweithgareddau prosiect yn parhau yn y prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol • SOC i'w ddatblygu • Llywodraethiant y prosiect i gael ei gytuno		• Datblygiad achos busnes y prosiect i gael ei ail-broffilio i gyd-fynd â'r prosiect newydd sydd wedi'i gyfuno
Campysau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Adolygiad y bwrdd prosiect o safleoedd targed	• Datblygu Achos Amlinellol Strategol • Caffael cefnogaeth allanol i ddarparu arbenigedd a chapasiti technegol		• Achos busnes y prosiect bellach yn cyd-fynd â'r prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol newydd

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.	980	£530m	£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 32	• RAG Ambr oherwydd oedi i achosion busnes Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Egni ac effeithiau posibl ceisiadau am newid Egni a Morlais ar Amcanion Gwariant Rhaglenni • **Ynni Lleol Blaengar:** SOC wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen. Datblygu'r OBC wedi dechrau. Consortiwm, dan arweiniad EA Technology, wedi'i gomisiynu i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd wedi'u hariannu gan CRF erbyn mis Mehefin 22. • **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hydrogen)** Yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y ffordd ymlaen a ffefrir ym mis Ebrill yn dilyn cadarnhad gan y byrddau prosiect, rhaglen a phortffolio. • **Egni:** Mae amserlen y prosiect wedi'i hadolygu i ddangos oediad posib o 8 mis i gyflawni'r achos busnes. Prifysgol Bangor i ddechrau gyda'r Achos Amlinellol Strategol • **Morlais:** Prosiect yn barod i ddechrau'r brif weddi adeiladu yn sgil sicrhau caniatadau, £31m o gyllid ERDF a chytuno ar gontractau adeiladu. • **Trawsfynydd:** Cynllun Busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer Cwmni Egino a recriwtio prif weithredwr a chyfarwyddwyr anweithredol • Swyddfa Rheoli Rhaglen i gydlynu'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Ynni Ardal Leol gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol

Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol

Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Morlais Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Mae'r prosiect wedi derbyn £31m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer prosiect isadeiledd Morlais. • Sicrhaodd Jones Bros Civil Engineering gontract i adeiladu'r isadeiledd ar y tir • Gwnaed y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol gan Fwrdd Menter Môn ar 23 Mawrth • Clirio amodau caniatâd cyn adeiladu yn llwyddiannus	• Dechrau ar y brif wedd adeiladu • Bydd y Cais i Newid ar gyfer cyllid Cynllun Twf o £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect i'w gyflwyno er ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais		• Mae risgiau prosiectau wedi gostwng yn dilyn penderfyniadau cydsyniad cadarnhaol, cadarnhau cyllid WEFO a chyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar gontractau blynyddol ar gyfer rowndiau ocsiwn gwahanol • Gradd Ambr yn sgil y cais i newid disgwyliedig ar gyfer cyllid Cynllun Twf o £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect
Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Prosiect Hydrogen) Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Y ffordd arfaethedig ymlaen wedi'i chymeradwyo gan y byrddau prosiect, rhaglen a phortffolio. Bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio cynhyrchu hydrogen gwyrdd yn y rhanbarth gyda chymorth gan bartner masnachol. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar ranbartholi drwy alw am drafnidiaeth yn y sector cyhoeddus a/neu ddosbarthiad rhanbarthol • Paratoi ar gyfer cam cyntaf y ffordd ymlaen a ffefrir - cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN).	• Cael cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y ffordd arfaethedig ymlaen • Cyhoeddi'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN) fel dull o ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar		• Bydd oedi wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu caffael partner masnachol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd i'r dull arfaethedig) • Bydd risgiau'r prosiect yn dod yn gliriach yn dilyn ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	• Cytuno i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol cyn yr Achos Busnes Amlinellol • Gweithdy Strategol Achos dros Newid wedi'i gynnal ym mis Mawrth	• Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Strategol, a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen • Caffael cam cyntaf cyflawni prosiectau – dymchwel adeiladau presennol i wneud lle ar gyfer adeilad newydd Egni		• Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol wedi'i oedi tan fis Rhagfyr 2022 • Cais i newid ac effaith ar Amcanion Gwariant Rhaglenni i'w hystyried ymhellach fel rhan o'r OBC
Ynni Lleol Blaengar Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol	• Achos Amlinellol Strategol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen. Mae'r ffordd ymlaen a ffefrir yn cynnwys sefydlu cronfa i gefnogi prosiectau ynni carbon isel ledled y rhanbarth. • Sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd gyda chronfeydd tebyg o ranbarthau eraill wedi darparu cyngor a gwersi a ddysgwyd gwerthfawr. • EA Technology wedi'u penodi i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd i safleoedd peilot posib ar gyfer systemau ynni lleol blaengar.	• Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol a gweithdai cysylltiedig • Parhau i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd y system ynni lleol blaengar		• Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol
Cwmni Egino	Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022/23	• Datblygu achos busnes ar gyfer datblygu Cwmni Egino ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol • Recriwtio Prif Weithredwr Cwmni Egino, arweinydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfarwyddwyr anweithredol	• Ymgysylltu â pherchennog a gweithredwr y safle ynghylch y cytundeb cydweithredu • Datblygu rhaglen er mwyn datblygu'r cynnig busnes a sicrhau partner technoleg i alluogi camau nesaf y prosiect • Cwmni Egino i ddarparu diweddariad i'r Bwrdd Rhaglen		• Risg o oedi wrth gaffael partner technoleg ac oedi dilynol i ddatblygu sgôp ac achos busnes y prosiect

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.	2280	£1.29bn	£355.4m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 35	• Gellid defnyddio methodolegau Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu a Chydosod ym Mharc Bryn Cegin, Bangor er mwyn bodloni datganiad sefyllfa Uchelgais Gogledd Cymru ar ostyngiadau mewn carbon gweithredol ac ymgorfforedig. • Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu Uwchgynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin ac i gefnogi sylwadau'r Cynghorau i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gymeradwyo uwchraddio Cyffordd yr A483. • Warren Hall, Brychdyn – Gohiriwyd yr adroddiad ar Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd Strategaeth Lleihau Ffosffad Dalgylch Dyfrdwy sydd bellach wedi'i chymeradwyo ond mae hyn wedi golygu bod disgwyl cyhoeddi adroddiad yr Arolygwyr ar ôl yr Etholiadau Lleol. • Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych – mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u tîm ymgynghori yn trafod cyflawni'r prosiect. • Mae'r trafodaethau Gwella Capasiti Porthladdoedd sy'n cynnwys Stena, Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn parhau gyda mwy o sicrwydd ynghylch angen masnachol y diwydiant alltraeth yn y dyfodol am y gwaith hwn.

Y Cynghorydd Hugh Evans
Aelod Arweiniol

Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol

David Mathews
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Porth y Gorllewin, Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Mae Cyngor Wrecsam ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno ar sylwadau ysgrifenedig drafft i gefnogi'r gwaith i uwchraddio cyffyrdd yr A483 i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru. • Mae Cyngor Wrecsam wedi cymeradwyo'r cyllid refeniw sy'n angenrheidiol i gwblhau'r Uwchgynllunio a'r Achos Amlinellol Strategol.	• Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor. • Y Cyngor i gyflwyno sylwadau ffurfiol i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru. • Asesiad Safle Manwl (gan gynnwys asesu yn erbyn amcanion yr AC/AAS/ARhC)		• Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn. • Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon.
Warren Hall, Brychdyn Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Mae'r Arolygydd Cynllunio wedi cymeradwyo'r Strategaeth Lleihau Ffosffas sy'n cael gwared ag un o'r rhwystrau sy'n weddill i gyflawni adroddiad y CDLl. • Mae ffordd ystâd Warren Hall wedi'i chynnwys ym Mhanel Adolygu Ffyrdd Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd Llywodraeth Cymru.	• Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o adeiladu ffordd ystâd newydd i agor y safle i gael ei ddatblygu. • Cytuno ar Gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru.		• Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn hydref 2022 bellach. • Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon .
Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd cyn asesu pa safleoedd sydd i'w cynnwys yn yr adolygiad CDLl. • Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal asesiad lefel uchel o linell amser cyflawni prosiect ddiwygiedig sy'n caniatáu ar gyfer yr adolygiad CDLl wedi'i ddiweddaru	• Datblygu'r drafodaeth gyda Sir Ddinbych ynglŷn â llinell amser y Cynllun Datblygu Lleol.		• Gallai adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol olygu na ellir cadw'r prosiect fel y nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Twf. . • Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	• Darparwyd Achos Busnes Prosiect Amlinellol drafft gan ymgynghorwyr Jones Bros ond mae trafodaethau wedi'u hatal tra'n aros i fater hyfywedd y prosiect gael ei ddatrys. • Cytunwyd mewn egwyddor ar senario datblygu fesul cam a ddarparwyd gan ANW i ddad-risgio'r costau datblygu annormal fel ffordd ymlaen i gyflawni'r prosiect.	• Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Fesul Cam gyda Jones Bros a'u hymgynghorwyr. • Cytuno ar yr holl gysylltiadau cytundebol a materion caffael diwygiedig gyda Jones Bros a Chyngor Sir Ddinbych.		• Mae risg y prosiect yn dal i adlewyrchu dibyniaeth cyllid newydd a chynnydd mewn costau annormal. • Graddfa risg yn adlewyrchu'r ansicrwydd hwn.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Parc Bryn Cegin, Bangor Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd drafft ar hyn o bryd gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru i'w ddiwygio cyn dychwelyd i Uchelgais Gogledd Cymru i'w gymeradwyo. • Mae'r consortiwm Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu a Chydosod (DfMA) wedi cadarnhau y gall defnyddio'r DfMA leihau carbon ymgorfforedig.	• Cwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru. • Cytuno ar y defnydd o achos busnes cyflenwi eiddo Llywodraeth Cymru fel Achos Amlinellol Strategol a datblygu Achos Cyfiawnhau Busnes gwell.		• Mae galw gan feddianwyr posib yn ymddangos yn gryf. • Perchennog tir parod • Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio a Pholisi Cynllunio.
Porth Caergybi Stena Line Ports Limited	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Mae trafodaethau i ariannu'r gwaith o adnewyddu Morglawdd Caergybi wedi bod yn mynd rhagddynt • Mae Stena, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal trafodaethau i ddeall gofynion y porthladd ac amserlenni ar gyfer gweithredwyr ar y môr. • Mae Stena wedi cyfarwyddo ymgynghorwyr i ddechrau drafftio Achos Busnes Amlinellol.	• Mae'r partïon perthnasol yn cytuno ar y cyllid i adnewyddu'r morglawdd. • Cytuno gyda Stena ynghylch cyflawni Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni gwaith ehangu capasiti'r porthladd ac amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect.		• Mae'r awydd i ddefnyddio'r porthladd ar gyfer prosiectau ynni ar y môr gan ddiwydiant bellach yn fwy sicr bellach. • Mae graddfa risg y prosiect yn adlewyrchu cydbwysedd o'r uchod.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.	380	£281m	£41.3m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	• Mae Coleg Cambria yn ystyried y camau nesaf ar gyfer eu Prosiect Fferm Sero Net yn dilyn Adolygiad Porth 2 ym mis Tachwedd 2021 o'u Hachos Busnes Amlinellol, gan adlewyrchu'n benodol ar gyfraniad y prosiect i'r targed swyddi rhanbarthol ac alinio â nodau amgylcheddol cenedlaethol ehangach sy'n ymwneud â llygredd a bioamrywiaeth. • Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gwmpasu strwythur y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth o ystyried y bartneriaeth rhwng y coleg a phartneriaid yn y sector preifat. • Mae Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio tuag at gais cyn-cynllunio ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon drwy arolygon amgylcheddol a thrafnidiaeth. • Mae'r tri busnes yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) yn cwblhau eu prosiectau Fferm Sero Net gan arddangos treulio anaerobig y gellir ei ehangu, cefnogaeth drôn ar gyfer tasgau fferm a datblygu llwyfan ôl-troed carbon ar gyfer ffermwyr da byw.

Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol

Jane Richardson
Uwch Berchennog Cyfrifol

Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Datblygu cais cyn-cynllunio yn barhaus • Adolygu methodoleg derbyn tenantiaid • Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar y dyluniad	• Cynnydd y cais cyn-cynllunio • Integreiddio allyriadau carbon a methodoleg bioamrywiaeth i'r cam Achos Busnes Llawn • Cynhyrchu Achos Busnes Llawn drafft		• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. • Bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu
Fferm Sero Net Llysfasi Coleg Cambria	Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol	• Adolygu adborth ar argymhellion Adolygiad Porth 2 • Trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch blaengynllun o Adolygiad Porth 2	• Cadarnhau sgôp diwygiedg y prosiect gan ystyried canfyddiadau'r Adolygiad • Cychwyn y broses rheoli newid		• Oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2
Rhwydwaith Talent Twristiaeth Grŵp Llandrillo Menai	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Agweddau cyfreithiol strwythur y prosiect wedi'u hymchwilio ar gyfer model gweithio canolfan ac is-ganolfannau • Gweithdai rhanddeiliaid a'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes wedi'u hoedi er mwyn datrys y cwestiynau cyfreithiol	• Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid y prosiect • Cadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol ar strwythur y prosiect • Bwrw ymlaen â Gweithdai Achos Busnes		• Strwythur cyfreithiol y model prif ganolfan a lloerennau i'w gytuno • Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed
Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.	180	£114m	£39.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 40	• Bwrdd Rhaglen yn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Mawrth 2022). Ystyriaeth y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Ebrill 2022. • Cwblhaodd y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen adolygiad achos busnes o Achos Amlinellol Strategol y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, ystyriaeth i gymeradwyo ym mis Ebrill 2022. • Mae'r ddau brosiect yn gweithio i integreiddio'r dull Allyriadau Carbon a Bioamrywiaeth yn y broses achosion busnes. • Cafodd Adolygiad Porth 1 o brosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor radd hyder o Ambr.

Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol

Uwch Berchennog Cyfrifol

Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	• Bwrdd Portffolio yn ystyried cais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf a refeniw • Bwrdd Rhaglen yn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol • Cymryd rhan mewn ymweliad ag AMRC i ddatblygu cyfleoedd cydweithio rhanbarthol	• Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ystyried achos busnes amlinellol (Ebrill 2022) • Integreiddio methodoleg allyriadau a bioamrywiaeth • Paratoi ar gyfer caffael ac ystyriaeth o'r FBC		• Eglurhad o'r sefyllfa cyllid cyfatebol • Dechrau'r broses cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	• Recriwtio Rheolwr Prosiect • Datblygu achos economaidd gan gynnwys gweithdy i randdeiliaid • Adolygiad y PMO a'r Bwrdd Rhaglen o'r Achos Amlinellol Strategol • Cymryd rhan mewn ymweliad ag AMRC i ddatblygu cyfleoedd cydweithio rhanbarthol • Adolygiad Porth 1 wedi'i gynnal a chafodd radd hyder o Ambr.	• Datblygu manylion y cais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf a refeniw • Ystyriaeth y Bwrdd Rhaglen o'r Achos Amlinellol Strategol • Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol • Integreiddio methodoleg allyriadau a bioamrywiaeth		• Cais i newid sy'n weddill ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw • Dechrau'r broses gymeradwyo'r achos amlinellol strategol

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)



	OBC	Start on Site	Project Completion
Digital Programme	Aug-21	Jan-22	Dec-23
	Jul-22	Dec-22	Feb-24
	Apr-22	Nov-22	May-24
	Jul-22	Dec-22	Feb-25
	Feb-22	Sep-22	May-24
Low Carbon Energy	May-21	Feb-22	Jun-23
	Jun-23	Jun-24	Apr-27
	Apr-22	Jun-23	Jun-25
	Sep-22	Jun-23	2028
	Apr-22	Oct-23	Oct-24
Land and Property	Jun-22	Mar-23	Jun-26
	Feb-22	June-22	Mar-26
	Sep-24	Sep-25	Mar-27
	Dec-22	Oct-23	Mar-25
	Sep-22	Oct-23	Sep-24
	Jan-23	Oct-23	Jun-24
Agrifood and Tourism	Aug-21	Jan-23	Mar-24
	Feb-22	Aug-22	Sep-23
	Jun-22	Oct-23	Oct-24
Innovation in High Value Manufacturing	Apr-22	Jun-23	Jun-25
	Feb-22	Aug-22	Apr-24

*Proffil cyflawni yn unol ag Achos Busnes y Portffolio 2021. Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.
** Caiff y proffil ei ddiweddaru i ystyried newidiadau'r Rhaglen Ddigidol yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

		Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020			Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u				Gwahaniaeth		
		GVA (£M)	Swyddi a grëwyd (net)	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*	OBC/ FBC**	GVA (£M)	Swyddi a grëwyd (net)	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*	GVA (£M)	Swyddi a grëwyd	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)	50	80	7.3	FBC	12	33	3.0	-38	- 47	- 4.3
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	35	150	4	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Coridor Cysylltiedig	25	0	2.2	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol	20	120	7.2	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Campysau Cysylltiedig	35	0	21	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Ynni Carbon Isel	Morlais	50	100	36	OBC	79	210	34	+29	+110	- 2
	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	60	90	28.6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	20	20	97.7	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Ynni Lleol Blaengar	120	180	106.2	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	230	510	400	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	220	360	43.4	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Warren Hall, Brychdyn	235	440	70	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan	125	250	82	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	20	50	74	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Parc Bryn Cegin, Bangor	30	50	6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Porth Caergybi	545	930	80	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	25	40	13	OBC	45	96	13	+20	+56	0
	Fferm Sero Net Llysfasi	215	310	15.4	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	20	0	12.9	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	45	70	29.9	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	60	90	9.6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf		**2,185**	**3,830**	**1,146**	**2 OBC 1 FBC**	**136**	**342**	**50**	**+49**	**+119**	**- 6.3**

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	2021/22 £m	2022/23 £m	2023/24 £m	2024/25 £m	2025/26 £m	2026/27 £m	2027/28 £m	2028/29 £m	Cyfanswm £m
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol**	Prifysgol Bangor	1.82	0.70	0.44	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.69	1.97	1.28	0.00	0.00	0.00	0.00	3.94
	Coridor Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.49	1.18	0.50	0.00	0.00	0.00	0.00	2.17
	Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.49	3.05	3.16	0.00	0.00	0.00	0.00	6.70
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.00	0.30	3.84	5.81	5.81	4.92	0.00	20.68
Ynni Carbon Isel	Morlais**	Menter Môn	0.00	4.93	3.94	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87
	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.00	3.94	3.94	3.35	0.00	0.00	0.00	11.23
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	1.18	8.47	9.36	1.67	0.00	0.00	0.00	20.68
	Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.00	1.23	1.97	6.16	6.16	6.16	2.95	24.63
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Egino	0.00	0.00	4.93	9.85	4.92	0.00	0.00	0.00	19.70
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.00	4.04	4.92	0.00	0.00	0.00	0.00	8.96
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.30	1.18	5.91	7.38	0.00	0.00	0.00	14.77
	Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.00	0.00	0.49	0.99	5.42	2.95	0.00	9.85
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.99	0.99	0.98	0.98	0.00	0.00	0.00	3.94
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais Economaidd	0.00	0.25	2.71	2.95	0.00	0.00	0.00	0.00	5.91
	Porth Caergybi	Stenaline	0.00	0.00	11.33	13.79	9.35	0.00	0.00	0.00	34.47
Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	6.90	2.95	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambria	0.00	4.93	4.92	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	1.48	1.48	1.47	0.00	0.00	4.43
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	0.00	6.40	3.15	0.30	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	1.23	1.73	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
										Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)	3.60
										Cyfanswm	240.00

* Mae proffil dyraniad cyllid cyfalaf y Cynllun Twf yn seiliedig ar Achos Busnes Portffolio 2021.
** Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	Proffil 21/22 (£m)	YTD Gwirioned dol	Amrywiad (£m)*	Sail Resymegol
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	1.82	0.123	-1.7	Llithriad yng ngwariant prosiect DSP o 21-22 i 22-23 gan na fydd archebion a osodir yn cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd gwariant yn digwydd yn gynnar yn 22-23.
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Coridor Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
Ynni Carbon Isel	Morlais	Menter Môn	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio.
	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	
	Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Egino	0.00	0.00	0.00	
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio.
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	
	Porth Caergybi	Stenaline	0.00	0.00	0.00	
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio.
	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambria	0.00	0.00	0.00	
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio.
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	
		Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)	**0.384**	**0.219**	**-0.165**	**Gwariant yn is na'r disgwyl, yn bennaf yn sgil oedi gyda phrosiectau.**
		Cyfanswm	**2.204**	**0.342**	**-1.865**	**Gweler uchod**

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2021) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Rhagfyr 2021.

Prosiect	Cam Caniatâd				Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd	Cynllunio llawn / Caniatâd	Amodau wedi'u gweithredu	Pennu cyd-destun y Prosiect	Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol	Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol	Paratoi'r Achos Busnes Llawn	Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn	Gweithredu a monitro'r prosiect	Gwerthuso'r Prosiect
Canolfan Prosesu Signal Digidol	Dim angen cynllunio				✓	✓	✓	✓	✓	✓	◷	
Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	◷						
Coridorau Cysylltiedig	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	◷					
Campysau Cysylltiedig	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	◷						
Yr ychydig % olaf	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	◷					
Morlais	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	◷			
Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	◷						
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	◷				✓	◷						
Ynni Lleol Blaengar	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	◷					
Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	◷					
Porth Caergybi	Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gyflwyno a Thrwydded Morol wedi'i rhoi				✓	✓	◷					
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru	✓	✓	◷		✓	✓	◷					
Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan	Angen CDLl newydd				◷							
Porth y Gorllewin	Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau				✓	◷						
Warren Hall	Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau				◷							
Safle Strategol Bryn Cegin	◷				◷							
Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	◷				✓	✓	✓	✓	◷			
Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	◷					
Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	◷						
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Dim angen cynllunio				✓	◷						
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	✓	✓	✓		✓	✓	◷					

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr	Crynodeb
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)	Prifysgol Bangor	Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf.
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd.
	Coridor Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU, neu cyn hynny. Y ffocws cyfredol yw darpariaeth 4G safon uchel a hwyluso defnyddio 5G. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483 a'r A5.
	Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) gyda ffocws cyfredol ar 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd.
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol.
Ynni Carbon Isel	Morlais	Menter Môn	Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol.
	Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol.
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd
	Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Egino	Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn.

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr	Crynodeb
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat.
	Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg
	Porth Caergybi	Stena Line	Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol.
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.
	Fferm Sero Net Llysfasi	Coleg Cambria	Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth.
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)	Prifysgol Bangor	Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru.
	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros Cyfredol			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau Camau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg weddilliol			Tuedd	Statws (agored/caedig)	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad diwethaf
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R001	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Capasiti	Cyfarwyddwr Portffolio	Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus	3	4	12	↔	Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024 Capasiti caffael a chyfreithiol technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau fel sydd angen PMO i ddefnyddio cefnogaeth dechnegol allanol pan fo angen PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio	Yn ei le Ebrill 2022 Adolygu'n fisol Adolygu'n fisol	PMO PMO PMO PMO, Arianwyr y Prosiectau	3	3	9	↔	Agored		30.03.22
R002	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Oediad	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen.	4	4	16	▲	Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru Adroddiadau Chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Portffolio	Misol Misol N/A Chwarterol Awst 2022	PMO PMO, Ariannwr y Prosiect Ariannwr y Prosiect Ariannwr y Prosiect PMO	4	4	16	▲	Agored	Wedi adolygu risg. Sgôr risg gros a gweddilliol wedi cynyddu yn sgil y tebygolrwydd cynyddol y bydd prosiectau wedi'u hoedi y tu hwnt i'r amserlen cyflawni newydd a fabwysiadwyd fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio. Mae'r risg fforddiadwyedd gynyddol yn ffactor sy'n ychwanegu at yr ansicrwydd ynghylch amserlenni prosiectau.	30.03.22
R003	10/21/2020	Ariannol:	Fforddiadwyedd	Swyddfa Rheoli Portffolio	os bydd costau prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau	5	5	25	▲	Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau. Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect. Discussions with UK/WG on mitigation strategy for managing the risk of increasing costs	N/A Misol N/A Ebrill 2022	PMO, Ariannwr y Prosiect PMO PMO PMO	5	4	20	▲	Agored	Wedi adolygu risg. Mae sgoriau risg gros a gweddilliol wedi cynyddu gan fod pwysau chwyddiant yn parhau i gynyddu costau ar gyfer prosiectau cyfalaf. Gallai hyn olygu bod prosiectau yn anfforddiadwy, gan arwain at oedi posib, sgôp wedi'i gyfyngu neu fethiant prosiectau. Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar yr holl Fargeinion Dinesig a Thwf ac mae'r risg wedi'i chodi gyda'r Llywodraeth ar ran yr holl Fargeinion Dinesig a Thwf. Mae ymgysylltu pellach wedi'i gynllunio dros y misoedd nesaf.	07.01.21
R004	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Adfer yr Economi	Cyfarwyddwr Portffolio	Os bydd adferiad yr economi yn rhanbarthol wedi'i gyfyngu, gallai bod risg i gyflawni portffolio'r Cynllun Twf a hyfywedd prosiectau penodol.	4	4	16	↔	Cydweithio rhanbarthol ar adfer yr economi wedi'i gydlynu gan y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Grŵp Swyddogion Gweithredol. Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau COVID-19 Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol wedi'i gyhoeddi ac yn gosod y blaenoriaethau strategol ar gyfer economi'r Gogledd. Y cam gweithredu i fwrw ymlaen yn 2022	N/A N/A N/A	PMO, SROs PMO,SROs, Bwrdd Uchelgais Cyfarwyddwr Portffolio	4	3	12	▼	Agored	Wedi adolygu risg. Enw a disgrifiad wedi'i ddiweddaru. Dim newidiadau i'r sgôr gros, gostyngiad i'r sgôr weddilliol yn sgil cyhoeddi'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth economaidd a gasglwyd drwy gydol y pandemig bod angen rhoi sylw i sgiliau, cyflogaeth a hyfforddiant i sicrhau bod gogledd Cymru yn barod i ymateb i'r swyddi newydd a grëir gan y Cynllun Twf ond hefyd, ac yn ddi-oed, ar gyfer amodau marchnad lafur newidiol a yrrir gan Covid.	30.03.22
R005	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Cytundeb Cydweithredu a Masnach yr UE/y DU	Cyfarwyddwr Portffolio	Os bydd perthynas fasnach newydd y DU/yr UE yn effeithio ar sectorau penodol o'r economi yna bydd risg y gallai hyfywedd prosiectau penodol y Cynllun Twf newid.	3	3	9	↔	Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau perthynas fasnach newydd y DU/yrUE. Lle gallai perthynas fasnach newydd y DU/yr UE gael effaith glir ar hyfywedd / angen am brosiect, bydd y prosiect yn ddarostyngedig i adolygiad llawn cyn datblygu'r achos busnes	N/A N/A	PMO/SROs y Prosiect PMO/SROs y Prosiect	2	3	6	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	30.03.22
R006	10/21/2020	Amgylcheddol	Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth	Cyfarwyddwr Portffolio	Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth	4	3	12	▲	Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais. Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa y mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i fabwysiadu. Ymgynghoriad yn digwydd ar y fethodoleg ddrafft ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau gyda phartneriaid.	N/A N/A Ebrill 2022	BWRDD UCHELGAIS PMO/SROs y Prosiect PMO	3	3	9	▲	Agored	Wedi adolygu risg. Cynnydd i sgoriau gros neu weddilliol yn sgil costau cynyddol a'r risg gynyddol y bydd prosiectau yn anfforddiadwy. Gallai hyn arwain at lai o gyllid ar gael i sgopio prosiectau i fodloni amcanion newid hinsawdd a bioamrywiaeth.	30.03.22

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros Cyfredol			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau Camau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg weddilliol			Tuedd	Statws (agored/caedig)	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad diwethaf
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R007	10/21/2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Preifat	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	4	16	↔	Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Proses wedi'i chytuno er mwyn ystyried prosiectau newydd os oes angen Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu	N/A N/A N/A Yn ei le	PMO/SROs y Prosiect PMO/SROs y Prosiect Y BWRDD UCHELGAIS, PMO PMO PMO	4	4	16	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Strategaeth Fuddsoddi wedi'i datblygu ond mae'r risg yn parhau'n uchel yn sgil cynnydd mewn costau a thargedau heriol.	30.03.22
R008	10/21/2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Cyhoeddus	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	4	16	↔	Mae holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu 2. Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Cytuno ar broses i ystyried prosiectau newydd neu newidiadau i ragamcanion buddsoddi sector cyhoeddus	Wedi cwblhau N/A N/A	BWRDD UCHELGAIS PMO/SROs y Prosiect Y BWRDD	4	4	16	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg ond mae'r risg yn parhau'n uchel yn sgil materion ariannu ar lefel prosiect a cheisiadau i newid prosiectau yn cynnig diwygiadau i ragamcanion buddsoddiad cyfalaf.	30.03.22
R009	10/21/2020	Rheoleiddio	Caniatâd Cynllunio a Statudol	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu.	4	5	20	↔	Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau i ddeall y broses caniatâd a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol Strategaeth ffosffadau awdurdodau lleol yn ei lle fel rhan o fabwysiadu Cynllun Lleol. PMO i adolygu cynnydd gyda chymeradwyo prosiectau	N/A N/A Ebrill 2022 Ebrill 2022	PMO/SROs y Prosiect PMO Awdurdodau Lleol PMO	3	5	15	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru ar erydu arfordirol a risg llifogydd wedi'i ddiweddaru (TAN 15) a strategaeth ffosffadau yn ei lle ar gyfer yr awdurdodau lleol perthnasol. Mae'r adolygiad o'r broses gymeradwyo wedi amlygu gofynion cymeradwyo cymhleth o fewn y portffolio a'r angen am reolaeth risg gadarn gyda chymeradwyo.	30.03.22
R010	10/21/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Amcanion Gwariant	Cyfarwyddwr Portffolio	Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad.	5	4	20	▲	Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio Proses adolygu prosiect a rheoli newid yn ei lle. Cytuno ar broses i ystyried prosiectau newydd neu newidiadau i ragamcanion buddsoddi sector cyhoeddus Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu	N/A N/A N/A Yn ei le	PMO/SROs y Prosiect PMO Y BWRDD UCHELGAIS, PMO PMO	4	4	16	▲	Agored	Wedi adolygu risg. Risg gros wedi cynyddu yn sgil costau cynyddol a'r effaith ddilynol ar allbynnau a deilliannau prosiectau. Gallai gostyngiadau posib mewn rhagamcanion buddsoddiad sector cyhoeddus hefyd effeithio ar darged amcanion gwario Buddsoddiad y Portffolio	30.03.22
R013	10/21/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Newid Gwleidyddol	Cyfarwyddwr Portffolio	Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.	4	4	16	▲	Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol. GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon. Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn yr etholiad	N/A Wedi cwblhau Mai/Mehefin 2022	Y BWRDD UCHELGAIS, PMO BWRDD UCHELGAIS	3	4	12	▲	Agored	Wedi adolygu risg. Mae'r sgôr risg gyfredol a gweddilliol wedi cynyddu yn sgil newidiadau gwleidyddol posib ar ôl yr etholiadau lleol	30.03.22
R014	10/22/2020	Ariannol	Twyll	Cyfarwyddwr Portffolio	Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus	4	4	16	↔	Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2 Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol.	N/A N/A Wedi cwblhau N/A	PMO PMO Swyddog Monitro PMO	2	4	8	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	30.03.22
R015	10/22/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Gwireddu Buddion	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes.	4	4	16	↔	Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion. Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion Egwyddorion Caffael i'w mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau	N/A Misol Wedi cwblhau N/A	PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau PMO PMO PMO	3	3	9	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	30.03.22
R016	10/22/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Sicrwydd	Rheolwr Gweithrediadau	Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth.	3	5	15	↔	Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol. Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP	Wedi cwblhau Chwarterol N/A	PMO PMO PMO	2	4	8	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	30.03.22

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros Cyfredol			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau Camau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg weddilliol			Tuedd	Statws (agored/caedig)	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad diwethaf
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R017	10/22/2020	Ariannol	Rheolaeth Ariannol.	Swyddog a151	Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl.	3	4	12	↔	Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr	N/A N/A Misol N/A	PMO PMO, SRO y Prosiect PMO, SRO y Prosiect	2	3	6	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Hawliadau cyntaf i'w gwneud wrth i'r DSP fynd i'r wedd cyflawni.	30.03.22
R018	10/1/2020	Ariannol	Cyllid refeniw	Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect	Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion	3	4	12	↔	Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024 Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Bwrdd Uchelgais PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais	N/A N/A N/A N/A	PMO PMO, SRO y Prosiect PMO, SRO y Prosiect	2	4	8	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Datrysiad tymor byr i gyllid refeniw'r PMO yn ei le wedi i'r Bwrdd Uchelgais ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024 Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy.	30.03.22
R019	10/1/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectaua a gallai buddion rhanbarthol fod yn is.	4	4	16	↔	Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi. RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol	N/A N/A Yn ei le N/A	PMO PMO PMO Arianwyr y Prosiectau	3	4	12	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	30.03.22

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
29 Ebrill 2022

TEITL: Diweddariad Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hydrogen)

AWDUR: Henry Aron, Rheolwr y Rhaglen Ynni

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ceisio cytundeb ar gyfer y ffordd ymlaen a ffefrir ar gyfer y prosiect fel yr argymhellwyd gan y Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Rhaglen Ynni a pharatoi a chyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r ffordd ymlaen a ffefrir ar gyfer y prosiect ac,

2.2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Rhaglen, i baratoi a chyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn unol â'r adroddiad.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Rhaglen wedi cytuno ar ffordd ymlaen a ffefrir sydd wedi'i gadarnhau gan y Bwrdd Portffolio, i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am gefnogaeth y Bwrdd i'r ffordd ymlaen a ffefrir ac i symud ymlaen gyda'r cam cyflawni cyntaf. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) i brofi'r farchnad, mesur diddordeb a chasglu gwybodaeth i lywio proses gystadleuol ar gyfer cyflwyno partner masnachol i helpu i gyflawni'r prosiect.

3.2. Yn ddarostyngedig i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo'r ffordd ymlaen a ffefrir, y nod yw cyhoeddi'r PIN yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Bydd ei ddatblygiad yn gofyn am fewnbwn gan weithwyr proffesiynol ym maes caffael, y gyfraith a diwydiant. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser, bydd yn cael ei ddrafftio drwy'r cyfnod cyn-etholiad gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn dilyn yr etholiadau.

3.3. Diben yr Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yw ymgysylltu â'r sector preifat i sefydlu diddordeb gan bartneriaid posibl i fuddsoddi, datblygu a gweithredu'r Hwb Hydrogen a chasglu gwybodaeth i helpu i lywio maint, cwmpas a lleoliad yr Hwb Hydrogen arfaethedig.

3.4. Byddai cynnydd i gam nesaf y ffordd ymlaen a ffefrir (deialog gystadleuol) yn amodol ar benderfyniad ar wahân gan y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys cynnig am enw newydd ar gyfer y prosiect.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ystyrir bod defnyddio hydrogen yn ddull sylweddol o ddatgarboneiddio rhannau o'r economi yn amrywio o drafnidiaeth, prosesau diwydiannol a gweithgynhyrchu i wresogi domestig. Mae Strategaeth Hydrogen y DU yn cydnabod y cyfleoedd hyn a disgwylir i gyhoeddiadau polisi pellach gael eu datgelu yr haf hwn.

4.2. Mae'r Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hydrogen) yn un o bum prosiect o fewn Rhaglen Ynni Carbon Isel Cynllun Twf Gogledd Cymru. Roedd y Prosiect ar y cam cysyniadol pan llofnodwyd y Cynllun Twf a'i nod oedd defnyddio hydrogen gwyrdd i helpu i ddatgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. Yn 2019, galluogodd cyllid Llywodraeth Cymru ymchwil, a gynhaliwyd gan Jacobs, i Gyfleoedd Hydrogen Strategol yn y Gogledd. Nododd y gwaith ardal Glannau Dyfrdwy fel lleoliad posibl ar gyfer yr hwb. Galluogodd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ymchwil fanylach i'r lleoliad posibl hwn.

4.3. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Jacobs rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2021. Ystyriodd y Bwrdd Prosiect argymhellion yr achos busnes a chynigiodd ffordd ymlaen. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi nodi bod angen newid enw'r prosiect er mwyn adlewyrchu natur y prosiect yn fwy cywir a gwella ein gallu i ymgysylltu â'r farchnad. Byddai'r PIN yn cael ei gyhoeddi o dan yr enw 'Uchelgais Gogledd Cymru – Hwb Hydrogen' gyda chynnig newid enw ffurfiol i'w wneud i'r Bwrdd cyn cam nesaf y gwaith.

5. Y FFORDD YMLAEN A FFEFRIR

5.1. Y ffordd ymlaen a ffefrir fyddai gweld £11.4m wedi'i glustnodi o Gynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddosrannu ar draws dwy ffrwd waith sy'n gorgyffwrdd (penderfynir ar yr union gyfran yn ystod y datblygiad achos busnes). Byddai angen sicrhau'r cyllid sy'n weddill, sef amcangyfrif o £17.2m, o ffynonellau cyhoeddus/preifat wedi'i rannu ar draws y ddwy ffrwd waith.

Ffrwd Waith 1 – Datblygu'r achos busnes a darparu hwb cynhyrchu hydrogen gwyrdd

5.2. Mae'r cam hwn yn dechrau gyda Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw i brofi'r farchnad, mesur diddordeb a chasglu gwybodaeth i lywio proses gystadleuol. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan broses gystadleuol i ddod â phartner masnachol i mewn i helpu i ddatblygu'r prosiect. Gallai'r broses ddilyn model tebyg i'r un a gymhwysir gan ranbarthau/dinasoedd eraill, megis Aberdeen, sydd â phrosiectau tebyg.

5.3. Bydd y partner masnachol yn cefnogi'r prosiect wrth benderfynu ar yr achos busnes dros hwb cynhyrchu hydrogen gwyrdd masnachol. Bydd cynlluniau ar gyfer lleoliad / safle penodol yr hwb yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r partner masnachol a byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod tir y sector cyhoeddus ar gael i wneud y gorau o botensial buddsoddi a denu diddordeb. Bydd y bartneriaeth hefyd yn archwilio'r galw posibl am bob cais hydrogen gwyrdd hyfyw. Gallai hyn gynnwys trafnidiaeth, diwydiannol, gwresogi neu fel mesur wrth gefn / ychwanegiad ar gyfer prosiectau fel HyNet. Os gellir cyflwyno achos busnes, byddai'r partner masnachol yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r prosiect.

5.4. Ochr yn ochr â Hwb Hydrogen Caergybi a phrosiectau eraill a gynlluniwyd, bydd ffrwd waith 1 yn cefnogi twf cychwynnol yr economi hydrogen ranbarthol ac yn caniatáu i'r rhanbarth ddysgu gwersi. Disgwylir y bydd cost cerbydau celloedd tanwydd hydrogen yn lleihau yn ystod y cyfnod

hwn i'r pwynt lle maent yn dod yn hyfyw i'w mabwysiadu'n llawnach yn y sector trafnidiaeth. Mae hyn hefyd yn caniatáu amser i awdurdodau lleol werthuso eu cymysgedd fflyd gorau, treialu cerbydau hydrogen a dysgu o brofiad cwsmeriaid cerbydau hydrogen eraill.

Ffrwd Waith 2 – Rhanbartholi a Datgarboneiddio

5.5. Bydd hyn yn adeiladu ar ffrwd waith 1 drwy ranbartholi dosbarthiad a defnydd hydrogen ar draws y Gogledd. Gallai hyn gynnwys datblygu model prif ganolfan a lloerennau, gyda hydrogen yn cael ei ddosbarthu i orsafoedd ail-lenwi â thanwydd mewn ardaloedd eraill. Gallai hyn hefyd gynnwys datblygu hybiau cynhyrchu ychwanegol neu gynyddu'r galw am hydrogen drwy gaffael cerbydau hydrogen. Bydd yr angen am strategaeth ranbarthol ar gyfer twf yr economi hydrogen yn y Gogledd hefyd yn cael ei ystyried, ynghyd â'r cysylltiadau â mentrau presennol megis Strategaeth Hydrogen Grŵp Llandrillo Menai a gwaith hydrogen y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried y rhaniad cyllid priodol rhwng ffrwd waith 1 a 2 wrth i ni symud ymlaen drwy'r broses gaffael.

5.6. Ceir trosolwg o'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol a'r rhesymeg dros y ffordd ymlaen a ffefrir yn Atodiad 1.

Camau Nesaf

5.7. Bydd y cam cyntaf yn cynnwys profi'r farchnad drwy Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN). Ni fydd y PIN yn cynnwys unrhyw fath o ddewis neu gystadleuaeth. Fe'i defnyddir i alluogi ymgysylltu cynnar â'r farchnad drwy; esbonio ein huchelgeisiau ar gyfer y prosiect, gan esbonio ein bwriad i gaffael partner a cheisio adborth gan y farchnad ar ein cynigion. Gallai roi cipolwg ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Costau prosiect a lefel y cyllid / y galw hydrogen gwarantedig y gallai fod ei angen ar bartner i fwrw ymlaen
- Y lleoliadau / safleoedd gorau ar gyfer yr hwb
- Y potensial ar gyfer ehangu gan gynnwys cyfleusterau ychwanegol ar draws y rhanbarth
- Strwythur masnachol posibl y bartneriaeth
- Bwriadau presennol y farchnad a allai fod yn gyflenwol neu'n gystadleuol eu natur.

5.8. Yn ddarostyngedig i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo'r ffordd ymlaen a ffefrir ym mis Mawrth 2022, y nod yw cyhoeddi'r PIN yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Ar ôl asesu'r wybodaeth a gafwyd drwy'r hysbysiad PIN, byddwn wedyn yn cynllunio proses dendro ffurfiol, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais.

5.9. Mae'r tabl isod yn dangos yr amserlen ddangosol ar gyfer caffael partner masnachol.

Carreg Filltir	**Dyddiad Targed**
Ymgynghori â'r Bwrdd Rhaglen ar y ffordd ymlaen a ffefrir	01-Maw-22
Ymgynghori â'r Bwrdd Portffolio ar y ffordd ymlaen a ffefrir	04-Maw-22
Y Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo'r ffordd ymlaen a ffefrir	29-Ebr-22
Cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw	Mai-22
Dechrau'r broses dendro	Hyd-22
Dyfarnu'r contract	Chwe-23



6. YMGYNGHORIAD A GWBLHAWYD

- 27 Ion - Briffio'r Bwrdd Rhaglen Ynni ar y ffordd ymlaen a ffefrir
- 4 Chwe - Briffio'r Bwrdd Portffolio ar y ffordd ymlaen a ffefrir
- 1 Mawrth - Bwrdd Rhaglen yn cadarnhau'r ffordd ymlaen a ffefrir
- 4 Mawrth - Bwrdd Portffolio yn cadarnhau'r ffordd ymlaen a ffefrir
- 10 Mawrth - Ymgynghori â Grŵp Strategol y Bwrdd Uchelgais a'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth ar y Ffordd Ymlaen a ffefrir

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. Mae darpariaeth gyllidebol eisoes ar gyfer datblygu prosiectau o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio a bydd unrhyw gostau a ysgwyddir wrth ddatblygu'r PIN yn dod o'r adnoddau presennol.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yn weithdrefn lle gall corff cyhoeddus roi hysbysiad ffurfiol o'i fwriad i ymgymryd â chaffaeliad penodol. Mae'n hysbysu'r farchnad o'r broses gaffael arfaethedig. Gall hefyd fod yn fecanwaith ar gyfer ceisio gwybodaeth am y farchnad er mwyn llunio a llywio'r broses gaffael yn well. Nid yw'n dendr ac nid yw ychwaith yn ymrwymo'r cyhoeddwr i gymryd unrhyw gamau neu gamau penodol.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Rhesymeg dros y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Throsolwg o'r Risgiau a'r Cyfleoedd

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:

Rwyf wedi cyfrannu sylwadau cyfreithiol i'r adroddiad. Mae'n gam rhesymegol a priodol i gynnal ymarferiad PIN ddylai fod yn gyfrwng i gryfhau dichonolrwydd model a'r broses caffael.

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):

Gallaf gadarnhau cywirdeb Rhan 6 o'r adroddiad, ac nad oes ymrwymiadau ariannol newydd sy'n deillio'n uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. Mae'r penderfyniad a geisir yn ffordd resymol o symud ymlaen i gam nesaf y prosiect.

Atodiad 1 - Rhesymeg dros y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Throsolwg o'r Risgiau / Cyfleoedd

Rhesymeg dros y Ffordd Ymlaen a Ffefrir

Mae'r Prosiect wedi bod yn datblygu'r achos busnes am hwb hydrogen ers nifer o fisoedd. Cefnogwyd y gwaith gan ymgynghorwyr a wnaeth eu hymchwil rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r darlun hydrogen yn y Gogledd- ac yn fyd-eang - wedi parhau i ddod i'r amlwg. Mae hyn yn golygu bod y gwaith hyd yma yn rhoi cipolwg yn ymwneud â'r cyfnod pan gasglwyd y dystiolaeth.

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos:

- Ar hyn o bryd, hydrogen yw'r ateb gorau posibl ar gyfer dim allyriadau ar gyfer rhai tryciau a bysiau trwm/ystod hir ac ar gyfer datgarboneiddio sectorau allweddol eraill (e.e. ffynhonnell tanwydd ar gyfer diwydiant).
- Y ffordd orau o gynhyrchu hydrogen yw drwy electrolysis dŵr, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy (hydrogen gwyrdd).
- Bydd cerbydau celloedd tanwydd hydrogen ar gael yn ehangach yn y DU ond bydd y costau'n uchel o'u cymharu ag opsiynau eraill.
- Yn seiliedig ar ymgysylltu â'r farchnad, prin yw'r galw gan y sector cyhoeddus am hydrogen yn y Gogledd tan 2026. Mae cynlluniau i gynnwys cerbydau hydrogen mewn strategaethau fflyd yn gynnar ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus.
- Yn seiliedig ar ymgysylltu â'r farchnad, nid oes galw penodol gan y sector preifat am hydrogen gwyrdd ar gyfer trafnidiaeth yn y tymor agos. Fodd bynnag, mae potensial i hyn newid wrth i weithredwyr fflydoedd trafnidiaeth barhau i adolygu eu hopsiynau ac argaeledd cerbydau hydrogen yn cynyddu.
- Yn seiliedig ar ymgysylltu â'r farchnad, nid oes gorsafoedd ail-lenwi â hydrogen yn y Gogledd ar hyn o bryd ac, ac eithrio prosiect Hwb Hydrogen Caergybi, nid oes unrhyw gynlluniau i adeiladu unrhyw un.
- Ac eithrio prosiect Caergybi, nid oes gan y sector preifat unrhyw gynlluniau wedi'u cadarnhau i ddatblygu cynhyrchu neu ddosbarthu hydrogen gwyrdd yn y Gogledd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i ysgogi'r galw am hydrogen gwyrdd a'i gynhyrchu, gan ysgogi twf yr economi hydrogen ranbarthol a'r manteision cysylltiedig.
- Disgwylir iddo gymryd 2 i 3 blynedd i ddatblygu prosiect sy'n cynnwys systemau cynhyrchu a dosbarthu hydrogen.

Mae cyflymder y newid yn golygu y bydd diwydiant yn dechrau gwneud penderfyniadau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio cyn bo hir. Disgwylir i benderfyniadau masnachol gael eu seilio ar ystyriaethau fel cymhwysedd technegol, cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, fforddiadwyedd, cyfranddalwyr a phwysau cyhoeddus a hyfywedd ariannol hirdymor. Penderfyniadau busnes ydynt gan arweinwyr busnes. Felly, ni fyddant o reidrwydd yn cyd-fynd yn berffaith ag amcanion Cynllun Twf Gogledd Cymru. Fodd bynnag, bydd buddiannau'n gorgyffwrdd lle bydd y prosiect yn gallu negodi a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n adlewyrchu ei amcanion yn well.

Mae angen i'r prosiect fod wedi'i gysylltu'n agos â diwydiant neu ei wreiddio, tra'n hyrwyddo ei werthoedd a chynnal ei gyfanrwydd. Mae natur esblygol y farchnad hydrogen yn golygu y bydd arsylwi'r digwyddiadau sy'n datblygu yn arwain at brosiect adweithiol ac aneffeithiol. Nod y prosiect yw helpu i lunio'r economi hydrogen, cynhyrchu ffrwd refeniw ar gyfer ailfuddsoddi rhanbarthol, a sicrhau bod y

Gogledd i gyd yn gallu elwa o'r technolegau newydd. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy fod yn gyfranogwr y tu mewn i'r diwydiant.

Newidiadau diweddar

Ers i Jacobs gasglu eu tystiolaeth rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2021, mae newidiadau sylweddol wedi digwydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y prosiect.

- Mae Llwybr Buddsoddwr Hydrogen y DU wedi'i gyhoeddi Llwybr Buddsoddwyr Hydrogen. Mae'n cynnwys:
    - Mae'r targed ar gyfer cynhyrchu hydrogen erbyn 2030 bellach wedi'i ddyblu i 10 GW.
    - Erbyn hyn, mae gan hydrogen gwyrdd ei darged ar wahân cyntaf o leiaf 50% o'r targed hydrogen newydd.
    - Mae hyd at £100 miliwn wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer prosiectau hydrogen electrolytig - fel hwn.
- Rhaid i'r gwaith o gynhyrchu ceir diesel ddod i ben yn 2030, bydd cynhyrchu cerbydau nwyddau diesel canolig yn dod i ben yn 2035, a bydd yr holl gerbydau diesel yn dod i ben yn 2040. Ychydig iawn o opsiynau gyriad y mae hyn yn eu gadael. Y ddau opsiwn dim allyriadau prif ffrwd yw BEV a hydrogen. Mae hydrogen yn debygol o ddod yn gystadleuol iawn ar gyfer defnyddiau trwm a phellter hir.
- Bellach mae gan y DU ei Strategaeth Hydrogen gyntaf ac mae hyn yn nodi'n glir y bydd hydrogen yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddatgarboneiddio economi'r DU. Bydd cynhyrchu hydrogen yn cael cymhorthdal gan y llywodraeth ac mae ystod eang o fentrau i hyrwyddo ymchwil a datblygu.
- Mae rhai cwmnïau mawr yn y Gogledd wedi cysylltu â'r prosiect a allai fod ag angen llawer iawn o hydrogen gwyrdd ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau, ond hoffent ei gael yn gynt na'r hyn y disgwylir i'r farchnad ei gyflawni ar hyn o bryd.
- Yn COP26, cyhoeddodd llywodraeth y DU fod eu polisi yn symud tuag at ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau mwy gyhoeddi eu cynlluniau sero net. Mae'r cynlluniau hyn yn debygol o gynnwys allyriadau'r gadwyn gyflenwi ac un rhan allweddol o lawer o gadwyni cyflenwi yw trafnidiaeth ffyrdd. Felly, efallai y bydd yn ofynnol i gwmnïau gynnal dadansoddiadau manwl o'u fflydoedd a rhai eu cyflenwyr. Disgwylir y bydd hyn yn datgelu mwy o gerbydau y dylid eu trosglwyddo i hydrogen.
- Mae prisiau nwy cyfanwerthu wedi codi 400% ers casglu'r data. Yn y tymor hwy, mae hyn yn mynd i ddal i effeithio ar y farchnad ynni ac felly'r farchnad hydrogen. Felly, mae'n effeithio ar y prosiect hwn hefyd.
- Disgwylir elfennau dylunio safon y DU ar gyfer hydrogen carbon isel yn fuan. Bydd hyn yn ei gwneud yn glir beth sydd a beth nad yw'n gymwys i gael cymorth y llywodraeth. Bydd hynny'n dylanwadu ar y farchnad ac felly gallai ddylanwadu ar bartneriaid posibl ar gyfer y prosiect hwn hefyd.
- Mae Strategaeth Diogelwch Ynni'r DU wedi'i chyhoeddi mewn ymateb i'r rhyfel yn yr Wcráin, sydd yn amharu ar y marchnadoedd olew a nwy byd-eang. Dylid monitro ac ystyried y sefyllfa hon sy'n esblygu.

Risgiau a Chyfleoedd Allweddol

Risgiau	
Disgrifiad	**Lliniaru**
Ar hyn o bryd, nid oes gweledigaeth na strategaeth ranbarthol ar gyfer tyfu economi hydrogen y Gogledd. Gallai hyn arwain at botensial a chystadleuaeth ddiangen rhwng prosiectau a ariennir yn gyhoeddus.	Dylid mynd i'r afael â chydgysylltu rhanbarthol gan fforwm rhanbarthol priodol.
Nid oes gan dîm y prosiect adnoddau ar hyn o bryd gyda'r arbenigwyr technegol, cyfreithiol neu gaffael gofynnol. Gallai hyn arwain at brosiect sydd wedi'i weithredu'n wael.	Adolygu cyfansoddiad y bwrdd prosiect a datblygu cynllun i sicrhau bod arbenigwyr cyfreithiol, masnachol a thechnegol addas yn rhan o dîm y prosiect. Chwilio am bartner masnachol i arwain y gwaith o ddarparu'r hwb hydrogen.
Gallai fod dim digon o ddiddordeb masnachol gan y farchnad	Bwrw ymlaen â'r weithdrefn Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw i ganfod diddordeb y farchnad
Mae diffyg gwybodaeth am gystadleuaeth bosibl ym marchnad hydrogen y gogledd. Gallai hyn arwain at wario arian cyhoeddus ar ymyriadau a fyddai'n cael eu darparu beth bynnag gan y sector preifat.	Bwrw ymlaen â'r weithdrefn Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw i ganfod bwriad y farchnad
Cyfleoedd	
Datgarboneiddio diwydiant a thrafnidiaeth	Caffael partner masnachol i gynhyrchu hydrogen gwyrdd ac adnabod galw cynnar. Bwrw ymlaen â ffrwd waith 2 i adnabod cyfleoedd i ddatgarboneiddio fflydoedd y sector cyhoeddus a'r economi ranbarthol ehangach
Mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad a chefnogi twf economi hydrogen ranbarthol	Drwy'r ddwy ffrwd waith, bydd y prosiect yn archwilio ymyriadau ochr y galw a'r cyflenwad gyda chymorth partner masnachol
Bydd gweithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Hwb Hydrogen a chysylltiadau ehangach â'r gadwyn gyflenwi yn arwain at swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol. Gallai'r prosiect hefyd ddiogelu swyddi a sgiliau sy'n berthnasol i gyfleoedd yn y farchnad lle gallai hydrogen ddisodli tanwyddau presennol	Bydd Amcan Gwariant y Rhaglen ar swyddi yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gaffael a datblygu achosion busnes dilynol.